# Ravi Singh

E-bost – SinghRA17@caerdydd.ac.uk  Ffôn symudol – 07555 445445
https://uk.linkedin.com/in/ravisingh

## Crynodeb Personol

Rwy'n fyfyriwr ymroddedig yn y drydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n astudio ar gyfer BA (Anrh) Llenyddiaeth Saesneg a Hanes, a fy ngradd ddisgwyliedig yw 2:1. Yn ystod fy astudiaethau, rwy wedi dod i werthfawrogi'r berthynas rhwng llenyddiaeth a chyd-destunau hanesyddol, ac ar ben hynny rwy wedi datblygu sgiliau dadansoddi a meddwl yn feirniadol. Mae fy mhrofiad o olygu'r papur newydd o'r radd flaenaf i fyfyrwyr, "Gair Rhydd", wedi datblygu fy sgiliau golygu ac arwain. Ar hyn o bryd, rwy'n chwilio am rôl olygyddol ym maes cyhoeddi llyfrau.

## Addysg

**BA (Anrh) Llenyddiaeth Saesneg a Hanes**, *Prifysgol Caerdydd* 2021 – presennol

- Modiwlau Perthnasol: Ysgrifennu yn y Brifysgol a thu Hwnt, Darllen Hanes, Llenyddiaeth a Diwylliant Cyfoes, Hanes Llyfrau o'r Memrwn i'r Picsel, Llenyddiaeth i bawb.
- Trin a thrafod y cysylltiadau rhyngddisgyblaethol rhwng llenyddiaeth, ffilm, celf, cerddoriaeth, hanes, iaith a diwylliant poblogaidd.

*Coleg Catholig Cardinal Newman* 2019–2021

**Safon Uwch:** Dylunio Graffeg: A*, Llenyddiaeth Saesneg: A, Hanes: B

**TGAU:** 10 TGAU gradd A* i C gan gynnwys Iaith Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

## Profiad Perthnasol

**Golygydd,** Gair Rhydd. *Prifysgol Caerdydd* 2023-presennol

- Ysgrifennu erthyglau golygyddol a darnau barn sy'n cydio yn y darllenydd, gyda ffocws penodol ar erthyglau ar y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.
- Prawfddarllen erthyglau i sicrhau eglurder, cysondeb a chywirdeb.
- Arwain a mentora aelodau'r tîm drwy sesiynau goruchwylio rheolaidd, meithrin cydweithio a chefnogi'r broses o ddatblygu'r tîm.
- Rheoli amserlenni cyhoeddi a chadw at safonau cyfreithiol a moesegol.
- Cefais fy enwebu ar gyfer darn gorau 'Celfyddydau a Diwylliant' am fy adolygiad o Artes Mundi yn Amgueddfa Cymru – yr arddangosfa gelfyddydau weledol gyfoes fwyaf yng Nghymru: https://cardiffstudentmedia.co.uk/gairrhydd/culture/artesmundi

**Tiwtor Preifat** 2023 – Presennol

- Llunio cynlluniau dysgu deniadol a defnyddio strategaethau addysgu amrywiol, gan ystyried anghenion unigol myfyrwyr.
- Dangos gwybodaeth eang o lenyddiaeth Saesneg a thechnegau dadansoddi.
- Defnyddio gweithgareddau deniadol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y myfyrwyr.
- Asesu gwaith myfyrwyr, rhoi adborth adeiladol, ac olrhain cynnydd.

## Sgiliau Allweddol

- **Cwrdd â therfynau amser:** Elfen hanfodol i fod yn Olygydd papur newydd i fyfyrwyr, sef Gair Rhydd, pan oedd rheoli amserlenni cyhoeddi yn effeithiol yn hanfodol er mwyn cyhoeddi'r papur newydd misol yn llwyddiannus ac ar amser.
- **Sylw i fanylion:** Dangoswyd hyn drwy weithio yn Retrocards, lle'r oedd yn hanfodol cynnig profiad siopa cadarnhaol i gwsmeriaid trwy reoli arddangosfeydd cynnyrch yn ofalus a mynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid yn brydlon, gan sicrhau lefelau bodlonrwydd uchel.
- **Sgiliau cyfathrebu:** Cael fy nghyflogi yn Diwtor Preifat, pan oedd gofyn imi gynllunio cynlluniau gwersi deniadol, rhoi adborth adeiladol, ac olrhain cynnydd mwy na 50 o fyfyrwyr yn effeithiol.
- **Gwaith tîm:** Gweithio yn rhan o dîm staff y bar a fu'n gweithio ddiwyd mewn lleoliad prysur yng nghanol y ddinas, gan gyfathrebu'n gyson i flaenoriaethu archebion, ailstocio gweithfannau a rheoli llif cwsmeriaid. Cefnogi fy nghydweithwyr yn ystod cyfnodau prysur, gan helpu'r tîm i gyrraedd targedau'r gwasanaeth yn gyson a chynnig profiad cadarnhaol i ymwelwyr.

## Profiad Arall

**Aelod o staff y bar**, Kapu Club, *Caerdydd* Medi – Mai 2022

- Dysgu ar gof mwy na 25 o ryseitiau coctel a dysgu priodoleddau rhestr winoedd helaeth gan wneud argymhellion i gwsmeriaid yn ogystal â pharhau i weini cwsmeriaid yn gyflym a sicrhau bod safon y gwasanaeth yn rhagorol.
- Ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau yn effeithiol mewn clwb prysur, gan sicrhau bod yr holl dasgau'n cael eu cyflawni'n amserol a hyd safon uchel.
- Cynyddu nifer y gwerthiannau 12% trwy hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau yn effeithiol.

**Cynorthwyydd Manwerthu**, Retrocards, *Brighton* 2019–2022

- Sicrhau profiad siopa cadarnhaol i gwsmeriaid.
- Sicrhau bod lefelau stoc yn fanwl gywir gan gadw golwg rheolaidd ar y stocrestrau, cylchdroi cynnyrch a chydlynu gyda thîm y storfa i sicrhau bod y silffoedd yn cael eu hailgyflenwi'n gyson.
- Datrys problemau cwsmeriaid yn brydlon a chynnal lefel uchel o fodlonrwydd.
- Gweithio gyda chydweithwyr i gyflawni nodau'r siop a rheoli amseroedd prysur.

## Diddordebau a Llwyddiannau

- Aelod o Glwb Llyfrau Prifysgol Caerdydd – cymryd rhan mewn cyfarfodydd wythnosol i drafod ac adolygu llyfrau cyfredol, ynghyd â thrafodaethau am bynciau ehangach megis genres, awduron a themâu amrywiol eraill yn ymwneud â llenyddiaeth.
- Gwobr Caerdydd (2023) – gwell hyder drwy fod yn hunanymwybodol a datblygu fy sgiliau cyflogadwyedd yn sgil cwblhau gwobr cyflogadwyedd Prifysgol Caerdydd.
- Mynd i Gynhadledd Gregynog (2023) – cymryd rhan mewn cynhadledd llenyddiaeth ganoloesol.
- Gwobr Efydd Dug Caeredin (2019)
- Cymwysterau Achub Bywyd, wedi fy ardystio mewn technegau cynnal bywyd ac achub o'r dŵr, gan ddangos sgiliau cymorth cyntaf ac ymateb i argyfwng.

**Bydd geirdaon ar gael ar gais**